# PWYLLGOR Y TY

## COFNODION

**Dyddiad: 18 Mai 2006**
**Amser: 2.00pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd**

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janice Gregory, AC Llafur
William Graham, AC Ceidwadwyr
Jane Hutt, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Llafur
Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Catherine Morris, Gweithredwr Seneddol
Gareth Brydon, Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty

**Yn bresennol:**

Terry Chinnock, Gwasanaethau TGCH (ar gyfer eitem agenda 2.1)
Jim Maynard, Gwasanaethau TGCh (ar gyfer eitem agenda 2.1)
Yn arsyllu: Brian Davidge, Pennaeth TGCh
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Andrew George, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr
John Grimes, Rheolwr Rhaglen Newid Strwythurol
Holly Pembridge, y Tîm Newid Strwythurol/Ysgrifenyddiaeth y

| | |
|---|---|
| | **Cyflwyniadau** |
| | |
| | Croesawodd y Cadeirydd Mr Chinnock, Mr Maynard a’r sylweddion i’r cyfarfod. |
| | |
| 1 | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a’r camau sy’n codi ohonynt** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2006 wedi eu cyhoeddi ar 18 Mai 2006. |
| | |
| 1.2 | Camau a gododd o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-06-06(p1) |
| | |
| | Ystafell Ysmygu<br><br>Holodd yr Aelodau ynghylch y datblygiadau o ran gosod lloches y tu allan. Dywedodd Dianne Bevan y dylai’r cais cynllunio gael ei benderfynu o fewn y pythefnos nesaf.<br><br>Is-les Swyddfeydd y BBC yn Adeilad y Cynulliad<br><br>Mynegodd y Llywydd bryder ei bod wedi cymryd cyhyd i ddod â mater a ymddangosai mor syml i ben. Dywedodd Dianne Bevan fod y mater yn symud ymlaen a bod ffordd o ddatrys y mater heb orfod newid Rheolau Sefydlog nawr yn cael ei archwilio, a’i bod wedi siarad â’r BBC.<br><br>Safleoedd Rhyngrwyd ar Wahân<br><br>Dywedodd Gwen Parry fod y broses dendro yn mynd rhagddi. |
| 2 | **Eitemau i’w penderfynu** |
| 2.1 | System bleidleisio yn y Siambr |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Mr Chinnock mai ef oedd y Cyfarwyddwr Prosiect ar gyfer y system bleidleisio a osodwyd yn y Siambr. Rhoddodd ef a Mr Maynard gyflwyniad i'r Pwyllgor yn egluro'r system a'i ymarferoldeb.<br><br>Diolchodd yr Aelodau i Mr Chinnock a Mr Maynard am eu cyflwyniad.<br><br>Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd Mr Chinnock ei bod yn angenrheidiol i brofi TGCh y Siambr bob bore cyn y Cyfarfod Llawn. Roedd angen terfyn amser o 11.00am ar gyfer ymwelwyr yn y Siambr, nid ar gyfer y profi ei hun ond oherwydd bod angen caniatáu digon o amser i gywiro unrhyw broblemau a allai godi gyda'r TGCh. Cadarnhaodd Mr Maynard fod yr Aelodau'n pleidleisio drwy bwyso eu botymau pleidleisio a bod y golau'n ymddangos. Roedd cadarnhad dwbl yn cael ei ddarparu oherwydd bod sgrin Aelod yn newid i'r sgrin rhagosod unwaith ei fod wedi bwrw pleidlais. Dywedodd na ddylai'r Aelodau geisio bwrw eu pleidlais nes y cai'r bleidlais ei hagor ac y gallai ceisio gwneud hyn greu'r syniad fod y system wedi methu. |
| 2.2 | Materion yn ymwneud â'r Gwahanu HC(2)-06-06(p2) |
| | Cyflwynwyd papur i'r Aelodau yn egluro'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y materion sy'n codi o wahanu arfaethedig Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br><br>Cafodd yr Aelodau drafodaeth fer ynghylch sefydlu Comisiwn y Cynulliad cysgodol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai materion yn ymwneud â'r cyfnod ar ôl ffurfio Comisiwn y Cynulliad gael eu hystyried gan y Comisiwn Cysgodol ac y dylai Pwyllgor y Ty gynnig cymaint o gymorth â phosibl o ran helpu'r Comisiwn Cysgodol gyda'i waith.<br><br>Dywedodd y Llywydd ei fod yn gobeithio y byddai cyfarfod anffurfiol o Bwyllgor y Comisiwn Cysgodol yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol.<br><br>Nododd Pwyllgor y Ty y papur. |
| 2.3 | Recriwtio yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad hyd at fis Mai 2007 HC(2)-06-06(p3) |
| | |

| | |
|---|---|
| | Bu’r Pwyllgor yn ystyried papur ynghylch recriwtio o fewn Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad cyn y Trydydd Cynulliad ym mis Mai 2007.<br><br>Bu’r Aelodau’n trafod a ddylid cyflwyno moratoriwm recriwtio yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ystod y flwyddyn cyn i Ddeddf Llywodraeth Cymru ddod i rym ond roeddent yn bryderus ynghylch yr angen i gynnal gwaith cyfredol y Cynulliad, yn arbennig mewn mannau nad oedd yn debygol o newid llawer ar ôl mis Mai 2007.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid cysylltu ag Undebau Llafur a staff ynghylch trefniadau recriwtio yn ystod y cyfnod trosiannol, o hyn i’r gwahanu. Yn y cyfamser, roedd y Pwyllgor yn hapus i’r broses recriwtio barhau fel arfer. Byddai’r broses ymgynghori’n dechrau’n fuan a dylai staff gael gwybod am y cynnydd. Gofynnodd y Llywydd a allai’r ymgynghoriad gynnwys cynigion ar gyfer hysbysebu pob swydd wag yn allanol.<br><br>Camau i’w cymryd: Dianne Bevan |
| | |
| 2.4 | Cyllideb 2007/08 – diffiniad gwasanaeth HC(2)-06-06(p4)<br><br>Cyflwynwyd papur i’r Pwyllgor ynghylch cost gwasanaethau neilltuol a gynigir gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad a’r broses o bennu’r gyllideb.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid anfon y papur at y Comisiwn Cysgodol i’w ystyried.<br><br>Camau i’w cymryd : Steven O’Donoghue/John Grimes |
| | |
| 2.5 | Rhaglen Cymorth i Weithwyr HC(2)-06-06(p5)<br><br>Bu’r Pwyllgor yn ystyried cynnig i gyflwyno Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP).<br><br>Cytunodd yr Aelodau i ymchwilio ymhellach i gost a budd cyflwyno rhaglen o’r fath a dylai’r Aelodau a staff cymorth gael eu cynnwys yn hyn.<br><br>Camau i’w cymryd : Dianne Bevan |
| | |
| 3 | **Eitemau i’w nodi** |

3.1 Canllawiau Lleoliadau Hygyrch HC(2)-06-06(p6)

Bu’r Aelodau’n ystyried dogfen ddrafft Canllawiau Lleoliadau Hygyrch Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor i nodi’r ddogfen a throsglwyddo unrhyw sylwadau i Dianne Bevan.

Cyfarfod o’r Is-grwp TGCh HC(2)-06-06(p7)

Cadarnhaodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.

Cyfarfod o’r Is-grwp Arlwyo HC(2)-06-06(p8)

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr oedi yn y gwasanaeth yn y parlwr te newydd.
3.2 Dywedodd Dianne Bevan fod y Grwp Cynghori Adeiladau yn ystyried y mater.

Cadarnhaodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod.

Adroddiad Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-06-06(p9)

3.3 Nododd yr Aelodau’r adroddiad.

Adroddiad Adnoddau Dynol misol HC(2)-06-06(p10)

Nododd yr Aelodau’r adroddiad.

Mynediad at wybodaeth HC(2)-06-06(p11)

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth fer ar y cyfrifoldeb am hebrwng ymwelwyr yn adeilad y Cynulliad, a chan bwy oedd yr atebolrwydd pe bai damwain yn digwydd.

Dywedodd Gwyn Griffiths er mai gan y Cynulliad fel corff corfforaethol yr oedd y cyfrifoldeb cyfreithiol yn hyn o beth, roedd gan yr Aelodau hefyd ddyletswydd gofal i’r Cynulliad, i ymddwyn yn rhesymol.

3.4

Dywedodd yr Aelodau y dylai unrhyw ddamwain sy’n digwydd yn y Senedd gael ei chofnodi yn y llyfr damweiniau. Gofynnwyd i Dianne Bevan ddosbarthu e-bost i atgoffa’r Aelodau a’r staff o’r weithdrefn.

Camau i’w cymryd : Dianne Bevan

| | |
|---|---|
| 3.5 | Dywedodd yr Aelodau fod dau gofnod yn yr adroddiad yn anghyflawn. Dywedodd Dianne Bevan y byddai'r adroddiad llawn yn dod yn ôl i'r Pwyllgor.<br><br>Camau i'w cymryd: Dianne Bevan<br><br>Gweithgareddau cysylltiadau tramor ac allanol HC(2)-06-06(p12) |
| 3.6 | Nododd yr Aelodau'r adroddiad.<br><br>Unrhyw Fater Arall<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at bum cwestiwn a ofynnwyd yn ddiweddar gan yr Aelodau a chyfeiriodd at Bwyllgor y Ty am atebion:<br><br>i) A fyddai modd cael DVD/fideo ar ddolen i ymwelwyr?<br><br>Dywedodd Gwen Parry fod gan y Cynulliad ei swît dyddiadur fideo ei hun. Gobeithid cynhyrchu dyddiadur fideo o weithgareddau'r Cynulliad yn fuan, ynghyd a chlipiau fideo o'r Aelodau'n disgrifio'r hyn y maent yn ei wneud. Fodd bynnag dim ond cyfleusterau i gynhyrchu fideos oedd gan y Cynulliad ac nid DVDs ac roedd y gost o newid ac uwchraddio'r pecyn arddangos presennol yn uchel.<br><br>Dywedodd Lorraine Barrett fod angen ystyried y cwestiwn o newid y pecyn arddangos yn y cyd-destun ehangach o ddefnyddio Adeilad y Pierhead yn y dyfodol.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i Gwen Parry ddychwelyd at y Pwyllgor gyda phapur.<br><br>Camau i'w cymryd : Gwen Parry<br><br>ii) A yw Merlin yn bodloni anghenion yr Aelodau?<br><br>Cofnodwyd amryw o broblemau.<br><br>Dywedodd Gwen Parry fod rhestr o amserau ymateb i geisiadau am wasanaeth gan yr Aelodau yn cael ei llunio.<br><br>iii) A ellir diffodd cyfrifiaduron yn y Siambr pan nad ydynt yn cael eu defnyddio?<br><br>Dywedodd Gwen Parry ei bod yn bosibl gwneud hyn. |

iv) A yw’r paen o wydr wedi cracio ar un o’r pontydd yn beryglus, a phryd y caiff ei newid?

Dywedodd Dianne Bevan nad oedd y paen o wydr wedi cracio yn beryglus. Rhoddwyd gwybod i’r contractwr am y diffyg ac roedd archeb wedi’i gwneud i’w newid, ond yr oedd hyn yn debygol o gymryd peth amser oherwydd natur arbennig y gwydr.

3.7 v) A ellir gwneud trefniadau i staffio’r dderbynfa yn Swyddfa’r Cynulliad ar ôl 5.30pm?

Bu’r Aelodau’n trafod budd staffio’r dderbynfa yn adeilad Swyddfa’r Cynulliad pan oedd y Cynulliad yn eistedd yn hwyr. Cytunodd Gwen Parry i ystyried y mater a pharatoi papur i’w ystyried mewn cyfarfod o’r Pwyllgor yn y dyfodol.

Camau i’w cymryd : Gwen Parry

4 Tocynnau ar gyfer Cyfarfodydd Llawn

Cododd Janice Gregory y mater o ddarparu tocynnau ar gyfer gwylio Cyfarfodydd Llawn a’r weithdrefn ar gyfer archebu seddi yn yr oriel gyhoeddus. Nodwyd fod seddau cadw ar gyfer y wasg weithiau’n wag ac y gellid eu defnyddio ar adegau prysur gan y cyhoedd. Addawodd Gwen Parry ymchwilio i’r mater.

Camau i’w cymryd : Gwen Parry

Y wasg yn ardal y Cwrt

Mynegodd Lorraine Barrett bryder ynghylch y wasg yn ceisio cysylltu â’r Aelodau yn y Cwrt.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Is-grwp Adeiladau yn ystyried y mater.

Camau i’w cymryd : Holly Pembridge

Blwch Post y Senedd

Bu’r Aelodau’n trafod a ddylid dod â Blwch Post y Senedd i ben.

Dywedodd y Cadeirydd y dylid ystyried barn yr is-grwp TGCh.

Camau i’w cymryd : Gwen Parry

| | |
|---|---|
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Mehefin 2006<br><br>Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |